# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6264

# 268(v6)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1, 2, 4, 5 a 10. Tynnwyd cwestiynau 3 a 6-9 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.25

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwybodaeth ddiweddaraf am Coronavirus (COVID-19)

Gan nad oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu bod yn bresennol ar gyfer dechrau'r datganiad, cynigiodd y Llywydd symud i Eitem 4, cyn cymryd eitem 3. Nid oedd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu.

Dechreuodd yr eitem am 15.55.

Y bwriad oedd i'r Gweinidog wneud ei ddatganiad drwy linc fideo, ond oherwydd anawsterau technegol, gwnaeth y Prif Weinidog y datganiad ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.42

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 17.16

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) - WEDI'I OHIRIO

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd - I'W GYHOEDDI FEL DATGANIAD YSGRIFENEDIG

## 8 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Fframwaith i wella ansawdd a pherfformiad mewn gofal brys ac argyfwng - I'W GYHOEDDI FEL DATGANIAD YSGRIFENEDIG

## 9 Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.54

**NDM7298** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o’r Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Chwefror 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gemau'r Gymanwlad Birmingham

Dechreuodd yr eitem am 17.56

**NDM7300** – Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7306** – Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 1 | 16 | 39 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 12 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.15

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 13 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) – WEDI'I OHIRIO

Daeth y cyfarfod i ben am 18.16

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Mawrth 2020**